YSGOL GYMRAEG CWMBRÂN

# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

Annwyl Riant/ Warchodwr, Hydref 2019

**Her Rigymu Pori Drwy Stori**

Mae Pori Drwy Stori yn rhaglen ddwyieithog a chyffrous sydd wedi'i hanelu at gefnogi llythrennedd plant y dosbarth Derbyn. Mae'r rhaglen yn darparu adnoddau i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth a chartref trwy gydol y flwyddyn gan annog rhieni i barhau â'u rôl hanfodol fel partneriaid wrth ddysgu eu plant. Cafodd y rhaglen ei chynllunio a'i chyflwyno gan Booktrust Cymru ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae tair prif elfen i'r rhaglen, un elfen ar gyfer pob un o dymhorau'r ysgol. Mae pob elfen yn cynnwys cyfres o adnoddau a gaiff eu hanfon i ysgolion, i'w defnyddio yn y dosbarth ac i'w hanfon gartref i rieni eu defnyddio gyda'u plant gartref. Y tymor hwn, y ffocws yw'r Her Rigymu (the Rhyme Challenge), a'r nod yw i feithrin hoffter o farddoniaeth a rhigymau yn gynnar gan hyrwyddo manteision dysgu gyda'ch plentyn. Mae'r pecyn amgaeedig yn cynnwys 'Canllaw Teuluoedd i Pori Drwy Stori', sydd yn daflen gweithgareddau yn esbonio Pori Drwy Stori, a llyfryn 'Her Rigymu' personol i'ch plentyn i'w ddefnyddio adref yn ystod yr 'her'.

Bydd athrawes eich plentyn yn penderfynu ar y rhigymau/caneuon wythnosol bydd y plant yn dysgu yn y dosbarth. Danfonir Schoop wythnosol i'ch hysbysu am ba rigwm bydd y plant yn dysgu yn y dosbarth yn yr wythnos ganlynol. Cofnodwch enw'r gân / rhigwm yn y llyfryn (tudalen 4) ac ddiwedd yr wythnos, neu ar ôl dysgu'r rhigwm wythnosol gyda'ch plentyn a lliwiwch y blwch ar gyfer yr wythnos honno. Gallwch chi wrando ar y caneuon a'r rhigymau ar wefan BookTrust Cymru sef booktrust.org.uk/poridrwystori. Mae'r wefan yn adnodd ardderchog gyda gweithgareddau darllen o bob math yn y Gymraeg a'r Saesneg; syniadau am lyfrau a llyfrau rhyngweithiol. Wedi cwblhau'r 'Her Rigymu' mae pob plentyn yn derbyn tystysgrif i ddathlu llwyddiant y plant. Cofiwch i osod lluniau ar gyfrif Trydar yr ysgol os gwelwch yn dda! (@ygcwmbran)

Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad a mwynhewch yr adnoddau.

Rhian Sennitt